



Amcan Llesiant 10

Heneiddio'n Dda - Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio

Sut y byddwn yn gwneud hyn?

Ein cynllun gweithredu manwl i gyflawni'r amcan hwn

(Mae'r uwcholeuo lliw lemwn yn golygu nad hwn yw prif amcan y Cam neu'r Mesur).

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/ Targed
A	Poblogaeth â gwell iechyd a llesiant	
1	Byddwn yn sicrhau bod y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth mor effeithiol â phosibl, gan ganolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar a gweithio gyda sefydliadau'r gymuned a'r trydydd sector, er mwyn cyflawni gwell canlyniadau i unigolion. <i>MF5-52a</i> (Cam gweithredu hefyd yn Amcanion Llesiant 9 ac 11)	Mawrth 2020
2	Byddwn yn parhau i anelu at leihau cyfradd y bobl sy'n cael eu cadw yn yr ysbyty tra byddant yn aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed (<i>PAM/025</i>) (2018/19 - 81 o gleientiaid - cyfradd 4.21)	57 o gleientiaid Cyfradd 2.90
3	Byddwn yn gwella iechyd a llesiant y boblogaeth ar draws y 3 haen drwy barhau i weithredu fframwaith ataliol gyda chanlyniadau clir o bob haen. ✓ Atal ✓ Ymyrraeth gynnar ✓ Hyrwyddo Byw'n Annibynnol (Hefyd yn Amcan Llesiant 11)	Mawrth 2020
4	Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i roi mwy o gyfleoedd i bobl agored i niwed a phobl hŷn gymdeithasu er mwyn lleihau unigrwydd, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a thlodi. - <i>MF5-59</i> (Hefyd yn Amcan Llesiant 11)	Mawrth 2020
5	Byddwn yn gweithredu amryw raglenni o fewn rhaglen 'Gorllewin Cymru Iachach', wedi'i chyllido drwy Gronfa Drawsnewid Llywodraeth Cymru, i wella canlyniadau llesiant ar gyfer pobl hŷn yn y sir. <i>MF5-52b</i>	Mawrth 2020
6	Byddwn yn parhau i chwarae rhan allweddol ar Fwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru ac yn cefnogi rhaglen ehangach Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru i integreiddio a thrawsnewid gofal a chymorth ar draws y rhanbarth. <i>MF5 52c</i>	Mawrth 2020
7	Byddwn yn parhau i leihau nifer y diwrnodau calendr a gymerir i gyflenwi Grant Cyfleusterau i'r Anabl(<i>PAM/015</i>) (Canlyniad 2018/19 - 157 diwrnod)	155 diwrnod
B	Gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o well ansawdd ac sy'n fwy hygyrch	
1	Byddwn yn parhau i adolygu a gwella ein model gwasanaeth a'n darpariaeth Gofal Canolraddol.(Hefyd yn Amcan Llesiant 9)	Mawrth 2020
2	Byddwn yn parhau i wella'r cyfleoedd dydd a ddarperir i bobl hŷn ar draws y sir. <i>MF5-53</i>	Mawrth 2020
3	Byddwn yn darparu rhaglen fuddsoddi ar gyfer Cynlluniau Cartrefi Gofal a Thai Gwarchod sy'n diwallu anghenion pobl hŷn yn y Sir yn y dyfodol. <i>MF5-54</i>	Mawrth 2020
4	Byddwn yn cynnal darpariaeth fewnol gref a chynaliadwy yn y Cyngor ar gyfer gofal cartref a phreswyl. <i>MF-55</i>	Mawrth 2021

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/Targed
5	Byddwn yn atgyfnerthu ymhellach y ddarpariaeth a'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwasanaethau gofal cymdeithasol er mwyn gallu darparu gwasanaethau yn newis iaith defnyddwyr y gwasanaeth a sicrhau cydymffurfiaeth â'r 'Cynnig Actif'. <i>MF5-56 (Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 14)</i>	Mawrth 2020
6	Byddwn yn parhau i ddatblygu a gwella gwasanaeth ailalluogi/adsefydlu i gyflawni canlyniadau personol gwell.	Mawrth 2020
7	Byddwn yn parhau i gefnogi pobl sy'n byw â dementia a datblygiad cymunedau sy'n cefnogi pobl â dementia a darpariaethau ar draws y Sir. <i>MF5-60 (Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 11)</i>	Mawrth 2020
C	Iechyd a gofal cymdeithasol gwerth uwch	
1	Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i gyfrannu at raglenni gwednewid sy'n cael eu harwain gan iechyd ym maes iechyd meddwl ac ail-ddylunio gwasanaethau ym maes anabledau dysgu gan sicrhau bod gwasanaethau a chymorth gofal iechyd meddwl priodol ar gael. <i>MF5-57 (Cam gweithredu hefyd yn Amcanion Llesiant 8 a 9)</i>	Mawrth 2020
2	Byddwn yn darparu cymorth i ofalwyr, a gofalwyr ifanc yn benodol, i'w galluogi i barhau i ddarparu'r gofal amhrisiadwy maent yn ei gynnig i berthnasau a ffrindiau mewn angen. <i>MF5-58 (Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 11)</i>	Mawrth 2020
3	Byddwn yn buddsoddi yn ansawdd ein harferion a'n penderfyniadau gwaith cymdeithasol drwy ddarparu canllawiau a hyfforddiant priodol i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaethol.	Mawrth 2020
4	Byddwn yn arloesi ac yn trawsnewid gwasanaethau drwy ddiwylliant dysgu ac ymagwedd arferion gorau.	Mawrth 2020
5	Byddwn yn adolygu ein Cynllun Strategol 10 mlynedd yng ngoleuni deddfwriaeth diweddar gan Lywodraeth Cymru a chanllawiau er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau wedi'u halinio ac yn parhau i wella ein modelau gwasanaeth.	Mawrth 2020
D	Gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy sydd â chymhelliant	
1	Rydym yn sefydlu diwylliant o "fusnes pawb", lle mae gweithwyr proffesiynol yn perchnogi risgiau. Byddwn yn sicrhau bod y defnyddiwr gwasanaeth yn rhan o hyn drwy sefydlu ymagwedd person-ganolog at ddiogelu sy'n sicrhau bod defnyddiwr y gwasanaeth yn cael ei glywed ac yn ganolog i'r penderfyniadau a wneir. <i>(Cam gweithredu hefyd yn Amcanion Llesiant 9 ac 11)</i>	Mawrth 2020
2	Byddwn yn darparu diwylliant dysgu a datblygu cefnogol ar gyfer ein gweithlu er mwyn sicrhau bod ganddynt y gallu i ymateb i heriau Cymru Iachach .	Mawrth 2020

Mesurau Llwyddiant
Yn cytuno bod Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol da ar gael yn yr ardal <i>(Arolwg Cenedlaethol Cymru)</i>
Cyfradd y bobl sy'n cael eu cadw yn yr ysbyty tra byddant yn aros i gael gofal cymdeithasol <i>(PAM/025)</i>
Nifer y diwrnodau calendr a gymerir i gyflenwi Grant Cyfleusterau i'r Anabl <i>(PAM/015)</i>